OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1318 (Cy. 235)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu dyddiad diwygiedig ar gyfer diwedd y cyfnod y mae rhaid i fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru, am y flwyddyn 2024, gael eu cyhoeddi ynddo gan swyddogion cofrestru o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983").

Mae rheoliad 2(1) yn gymwys i gyhoeddi gan swyddog cofrestru (gweler adran 8 o Ddeddf 1983) ar gyfer ardal sirol neu ardal bwrdeistref sirol yng Nghymru y gofrestr ddiwygiedig o etholwyr llywodraeth leol a gynhelir gan y swyddog hwnnw o dan adran 9(1)(b) o Ddeddf 1983.

Mae rheoliad 2(2) yn pennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r gofrestr honno gael ei chyhoeddi yn 1 Chwefror 2025.

Er mwyn sicrhau cysondeb wrth gyhoeddi'r cofrestrau etholiadol yng Nghymru, mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio'r Etholfraint ac Adolygu Cymhwystra) 2023 (O.S. 2023/1150) yn rhagnodi'r dyddiad 1 Chwefror 2025 ar gyfer cyhoeddi gan swyddogion cofrestru fersiynau diwygiedig y cofrestrau o etholwyr seneddol y Deyrnas Unedig a gynhelir ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, am y flwyddyn 2024, o dan adran 9(1)(a) o Ddeddf 1983.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 1318 (W. 235)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Representation of the People (Electoral Registers Publication Date) (Wales) Regulations 2023

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations set a revised date for the end of the period during which the revised versions of the registers of local government electors in Wales, for the year 2024, must be published by registration officers under section 13(1)(a) of the Representation of the People Act 1983 ("the 1983 Act").

Regulation 2(1) applies to the publication by a registration officer (see section 8 of the 1983 Act) for a county or county borough area in Wales of the revised register of local government electors maintained by that officer under section 9(1)(b) of the 1983 Act.

Regulation 2(2) sets the date by which that register must be published as 1 February 2025.

To ensure consistency in the publication of the electoral registers in Wales, the Representation of the People (Franchise Amendment and Eligibility Review) Regulations 2023 (S.I. 2023/1150) prescribe the date of 1 February 2025 for the publication by registration officers of the revised versions of the registers of United Kingdom parliamentary electors maintained for areas in Wales, for the year 2024, under section 9(1)(a) of the 1983 Act.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn am eu bod yn gweithredu diwygiad technegol nad yw'n cael unrhyw effaith, neu nad yw'n cael unrhyw effaith sylweddol, ar y sector preifat, y sector gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations as they implement a technical amendment which has no impact, or no significant, impact on the private, voluntary or public sectors.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1318 (Cy. 235)

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Rhagfyr 2023* |
| *Yn dod i rym* | *11 Rhagfyr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 13(1)(a) a 201(1) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**1**) ("Deddf 1983") ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol yn unol ag adran 7(1) a (2)(e) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**3**).

(**1**) 1983 p. 2. Amnewidiwyd adran 13 gan baragraffau 1 a 6 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2) ac amnewidiwyd adran 13(1) ymhellach gan adran 5(1) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2006 (p. 33). Gweler adran 202(1) am ystyr "prescribed" yn adran 13(1). Diwygiwyd adran 201(1) gan baragraff 6(1) a (7)(a) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41). Mewnosodwyd adran 201(3) gan baragraffau 1 ac 21 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(d) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig, i Weinidogion Cymru gan erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644) a pharagraff 1 o Atodlen 2 iddo.

(**3**) 2000 p. 41.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. 1318 (W. 235)

# REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

## The Representation of the People (Electoral Registers Publication Date) (Wales) Regulations 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 December 2023* |
| *Coming into force* | *11 December 2023* |

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the power conferred on the Secretary of State by sections 13(1)(a) and 201(1) and (3) of the Representation of the People Act 1983(**1**) ("the 1983 Act") and now exercisable by them(**2**).

The Welsh Ministers have consulted the Electoral Commission in accordance with section 7(1) and (2)(e) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(**3**).

(**1**) 1983 c. 2. Section 13 was substituted by paragraphs 1 and 6 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000 (c. 2) and section 13(1) was further substituted by section 5(1) of the Northern Ireland (Miscellaneous Provisions) Act 2006 (c. 33). See section 202(1) for the meaning of "prescribed" in section 13(1). Section 201(1) was amended by paragraph 6(1) and (7)(a) of Schedule 21 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41). Section 201(3) was inserted by paragraphs 1 and 21 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000, and amended by paragraph 6(1) and (7)(d) of Schedule 21 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000.

(**2**) The functions of the Secretary of State, insofar as they are exercisable within devolved competence, were transferred to the Welsh Ministers by article 45 of, and paragraph 1 of Schedule 2 to, the Welsh Ministers (Transfer of Functions) Order 2018 (S.I. 2018/644).

(**3**) 2000 c. 41.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol ag adran 201(2)(**1**) o Ddeddf 1983(**2**).

A draft of these Regulations was laid before, and approved by resolution of Senedd Cymru in accordance with section 201(2)(**1**) of the 1983 Act(**2**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Cofrestrau Etholiadol) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 11 Rhagfyr 2023.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1983" yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

**Title, commencement, application and interpretation**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Representation of the People (Electoral Registers Publication Date) (Wales) Regulations 2023.

(2) These Regulations come into force on 11 December 2023.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

(4) In these Regulations, "the 1983 Act" means the Representation of the People Act 1983.

**Dyddiad cyhoeddi'r cofrestrau diwygiedig am y flwyddyn 2024**

**2.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r gofyniad o dan adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983 i swyddogion cofrestru gyhoeddi, am y flwyddyn 2024, fersiynau diwygiedig y cofrestrau a gynhelir o dan adran 9(1)(b) o Ddeddf 1983(**3**).

(2) Y dyddiad ar gyfer diwedd y cyfnod a ddisgrifir yn adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983, sef y cyfnod y mae rhaid i'r cofrestrau diwygiedig gael eu cyhoeddi ynddo, yw 1 Chwefror 2025.

**Date for publication of revised registers for the year 2024**

**2.**—(1) This regulation applies to the requirement under section 13(1)(a) of the 1983 Act for registration officers to publish, for the year 2024, revised versions of the registers maintained under section 9(1)(b) of the 1983 Act(**3**).

(2) The date for the end of the period described in section 13(1)(a) of the 1983 Act, being the period during which the revised registers must be published, is 1 February 2025.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
6 Rhagfyr 2023

Minister for Finance and Local Government, one of the Welsh Ministers
6 December 2023

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Jeff James, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2023

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Mae'r cyfeiriad at ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig yn adran 201(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i'w ddarllen fel cyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd paragraff 9(2)(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32). Ailenwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn Senedd Cymru yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**2**) Amnewidiwyd adran 201(2) gan adran 24 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 (p. 50) a pharagraff 69 o Atodlen 4 iddi, ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6(1) a (7)(b) o Atodlen 21 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p. 41); gan adran 13(2) o Ddeddf Gogledd Iwerddon (Darpariaethau Amrywiol) 2014 (p. 13); gan baragraff 1(9) o Atodlen 8 i Ddeddf Etholiadau 2022 (p. 37); a chan O.S. 1991/1728.

(**3**) Amnewidiwyd adran 9 gan baragraffau 1 a 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 (p. 2).

(**1**) The reference to each House of Parliament in section 201(2) of the Representation of the People Act 1983 is to be read as a reference to the National Assembly for Wales by virtue of paragraph 9(2)(b) of Schedule 3 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32). The National Assembly for Wales was renamed Senedd Cymru by virtue of section 2 of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(**2**) Section 201(2) was substituted by section 24 of, and paragraph 69 of Schedule 4 to, the Representation of the People Act 1985 (c. 50), and was amended by paragraph 6(1) and (7)(b) of Schedule 21 to the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c. 41); by section 13(2) of the Northern Ireland (Miscellaneous Provisions) Act 2014 (c. 13); by paragraph 1(9) of Schedule 8 to the Elections Act 2022 (c. 37); and by S.I. 1991/1728.

(**3**) Section 9 was substituted by paragraphs 1 and 3 of Schedule 1 to the Representation of the People Act 2000 (c. 2).

ISBN 978-0-348-39507-5

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2023/1318